# Ydych chi’n riant-ofalydd?

Mae unrhyw un sy’n rhoi gofal a chymorth i blentyn o dan 18 oed sy’n sâl, gydag anabledd neu unrhyw anghenion ychwanegol yn rhiant-ofalydd.

Mae bod yn rhiant sy’n gofalu am blentyn ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol yn medru bod yn wobrwyol dros ben. Ond, hyd yn oed pan fyddwch chi’n ymgymryd â’r dasg o’ch gwirfodd eich hun, mae’n parhau i fod yn waith caled. Fe fedrech chi wynebu adegau lle y mae gormod i’w wneud; dim digon o arian; dim bywyd cymdeithasol nac amser i chi’ch hun, a dim digon o gwsg na chyfle i ymlacio.

Mae gan bob teulu wahanol anghenion cefnogi, a nod ein gwasanaeth yw mynd ati mewn modd hyblyg ac addasedig i ddiwallu eu hanghenion, gan sicrhau bod pob teulu’n cael y gefnogaeth a’r cymorth sydd eu hanghen arnynt i gyflawni’r canlyniadau gorau posibl i bawb sy’n gysylltiedig.

Trwy gofrestru gyda ni, byddwch chi’n cael y cyfle i gwrdd â phobl sy’n byw gyda heriau tebyg ac i gael cymorth gan ein Swyddogion Cymorth Gofalwyr arbenigol.

## Gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer rhiant-ofalwyr

- Gwybodaeth a chefnogaeth arbenigol gan ein Swyddogion Cymorth Gofalwyr ymroddedig
- Cyfeirio at amrywiaeth eang o wasanaethau a ffynonellau cymorth eraill
- Creu cysylltiad rhwng rhieni, gwasanaethau statudol a gwasanaethau gwirfoddol
- **Yng Ngwynedd yn unig:** Grwpiau cymorth rheolaidd i rieni
- Gwybodaeth ariannol am fudd-daliadau a grantiau er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hawliau
- Teithiau teuluol a digwyddiadau cymdeithasol trwy gydol y flwyddyn
- Cynllunio at argyfwng

- Gweithio gydag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau bod rhiant-ofalwyr yn cael y gydnabyddiaeth y maen nhw'n eu haeddu ac er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Cylchlythyr rheolaidd a diweddariadau ar y wefan, Facebook a Twitter er mwyn darparu'r wybodaeth gyfredol a chynnig cyfleoedd i roi adborth a chael trafodaeth

## Cysylltiadau defnyddiol ar gyfer rhiant-ofalwyr

Cerebra http://w3.cerebra.org.uk/

Cyswllt Teulu https://www.cafamily.org.uk/

Cymdeithas Genedlaethol Awstistiaeth http://www.autism.org.uk/

SNAP http://www.snapcymru.org/

Cymdeithas Syndrom Down https://www.downs-syndrome.org.uk/

Scope https://www.scope.org.uk/

Gofalwyr Cymru http://www.carersuk.org/

Cyngor Gwynedd https://www.gwynedd.llyw.cymru

Cyngor Ynys Môn http://www.anglesey.gov.uk/

Cyngor Conwy https://www.conwy.gov.uk/

Tros Gynnal http://www.trosgynnal.org.uk

Get Checked Out North Wales – The Health Liaison Team https://getcheckedoutnorthwales.org/health-liaison-team

Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol - https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/ein-gwaith/rhaglen-gwella-iechyd-anabledd-dysgu/cymorth-ymddygiad-cadarnhaol/